Materion Gwasanaeth Cwsmeriaid

Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd

Pan fyddwch chi'n	Mi fyddwn ni'n
Gwneud cais deiliaid tai am ganiatâd cynllunio	Anfon llythyr i gydnabod eich cais cynllunio, yn rhoi gwybod i chi am y dyddiad (o fewn 8 wythnos) pryd y bydd penderfyniad yn cael ei wneud.
Gydag ymholiad cynllunio	Byddwn yn cynnig apwyntiad i chi weld swyddog cynllunio a fydd yn rhoi help a chyngor ynghylch eich ymholiad cynllunio.
Gofyn am ymweliad safle ar gyfer rheoliadau adeiladu	Trefnu ymweliad safle y diwrnod gwaith nesaf os yw'r cais yn cael ei wneud cyn 4pm ac o fewn 48 awr (ar ddiwrnod gwaith) os ar ôl 4pm.
Cyflwyno cais cyflawn, gyda'r holl waith papur perthnasol, ar gyfer trwydded cerbyd hurio preifat	Ystyried y cais yn seiliedig ar y gwaith papur a ddarparwyd ac os yw eich cerbyd yn cwrdd â'r gofynion, a rhoi'r drwydded, platiau a sticeri drws ar gyfer y cerbyd o fewn 2 ddiwrnod gwaith.
Cael ymweliad hylendid bwyd	Gadael i chi wybod beth sydd angen i chi ei wneud drwy ddarparu adroddiad arolygu eiddo ar adeg yr ymweliad, neu anfon llythyr adroddiad arolygu i chi cyn gynted ag y bo modd ac o fewn 14 diwrnod fan bellaf.

Unrhyw beth yr hoffech ei ddweud wrthym ni?
Rhowch wybod i ni os ydych chi'n credu ein bod ni wedi gwneud rhywbeth o'i le neu wedi gwneud camgymeriad. Byddem hefyd yn hoffi gwybod os ydych chi'n credu ein bod ni wedi gwneud rhywbeth yn dda, neu os oes gennych chi sylw neu syniad ynghylch sut gallem ni wneud rhywbeth yn wahanol neu'n well.

CYNGOR Sir Ddinbych Denbighshire COUNTY COUNCIL

Rhowch wybod i ni drwy anfon e-bost at eich.llais@sirddinbych.gov.uk neu ffonio 01824 706101.
Neu fe allwch chi lenwi ffurflen ar ein gwefan yn www.sirddinbych.gov.uk